# CYD CYMRU ATEBION MENTRUS RHAGLEN

## CYFLWYNIAD

**Cefnogir rhaglen Atebion Mentrus CYD Cymru gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.** Nod y rhaglen, sy'n rhedeg o ddechrau 2017 tan fis Mawrth 2021, yw cefnogi datblygiad mentrau cymunedol ledled Cymru. Gan dderbyn cyfanswm o **£499,484 o gyllid** ar ddechrau'r rhaglen, cynigiodd Atebion Mentrus y byddai'n gweithio gyda **100 o grwpiau cymunedol** ledled Cymru.

Gan ddilyn 'dull cymorth cymheiriaid i gymheiriaid' CYD Cymru, nod Atebion Mentrus yw defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd ymarferwyr menter gymunedol i helpu i ddatblygu a chefnogi mentrau newydd.

Mae'r ffeithlun hwn yn crynhoi canfyddiadau gwerthusiad annibynnol a gynhaliwyd gan ymgynghorwyr Wavehill, yn 2018-2020.

Mae Atebion Mentrus yn rhaglen uchel ei pharch oherwydd y cymorth y mae'n ei ddarparu, yn ogystal â'r ffordd y mae'r cymorth hwnnw'n cael ei ddarparu trwy ymarferwyr mentrau cymunedol profiadol.

### Roedd y cymorth a oedd ar gael trwy'r rhaglen yn cynnwys:

- Mentora cymheiriaid i gymheiriaid gan ymarferwyr menter gymunedol profiadol
- Mynediad at fentora arbenigol
- Digwyddiadau (gan gynnwys dosbarthiadau meistr yn canolbwyntio ar themâu penodol ac ymweliadau astudio)
- Bwrsariaeth astudio hunangyfeiriedig i hwyluso ymweliadau â mentrau cymunedol tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig
- Mynediad i'r system rheoli prosiect, Basecamp, ac adnoddau ar-lein



DEVELOPMENT TRUSTS ASSOCIATION WALES
CYMDEITHAS YMDDIRIEDOLAETHAU DATBLYGU CYMRU
Community Enterprise | Community Assets
Menter Gymunedol | Asedau Cymunedol

enterprisingsolutions
atebionmentrus

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

# AM Y RHAGLEN

**Dechreuodd rhaglen Atebion Mentrus yn 2017**

**18** o gydgysylltwyr

**54** o fentoriaid cymheiriaid

**291** o ymholiadau

**135** o grwpiau wedi cofrestru

**113** o fentoriaid wedi'u cydweddu

**408** o bobl yn bresennol

**95** cynlluniau gweithredu

**105** gwiriad iechyd

**31** o ddigwyddiadau

# CANLYNIADAU'R AROLWG




Nododd 83 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg, fod y rhaglen wedi darparu'r hyn yr oeddent wedi ei ragweld wrth iddynt gofrestru ar ei chyfer.

Pan ofynnwyd iddynt ymhelaethu ar y tebygolrwydd y byddent yn argymell Atebion Mentrus, cyfeiriodd dros hanner y grwpiau a gefnogwyd at y ffaith fod y cymorth wedi'i dargedu at anghenion eu sefydliad trwy'r Healthcheck a thrwy nodi'r mentor iawn i gynnig y cymorth gofynnol.

# CANLYNIADAU

- Mae grwpiau yn fwy hyderus,
- Mae grwpiau yn meddu ar well dealltwriaeth o fentrau cymunedol a'r sgiliau sy'n ofynnol i'w cynnal,
- Mae grwpiau yn rhwydweithio'n well â mentrau cymunedol yng Nghymru.



dtawales.org.uk

DEVELOPMENT TRUSTS ASSOCIATION WALES
CYMDEITHAS YMDDIRIEDOLAETHAU DATBLYGU CYMRU
Community **Enterprise** | Community **Assets**
**Menter** Gymunedol | **Asedau** Cymunedol

**enterprising**solutions
atebion**mentrus**

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

# EFFAITH CYMDEITHASOL




> Llwyddodd y mentor i'n perswadio i ailddiffinio ein cynllun busnes a sicrhau bod holl nodau ac amcanion y prosiect yn canolbwyntio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd hyn yn golygu ein bod yn gallu sicrhau cyllid gwerth £500,000 gan Lywodraeth Cymru, adnewyddu'r adeilad, ac agor y ganolfan gymunedol ym mis Mehefin 2019.
>
> **Grŵp a gefnogwyd**

## ECONOMAIDD



> Lle mae'n gweithio'n dda, mae'r cymorth a ddarperir trwy fentora yn fwy gwerthfawr na chyngor generig yn unig ar ddulliau cynllunio busnes, trwy ddarparu cymorth cyfannol, a theilwra'r cymorth cynllunio busnes i weddu i anghenion penodol y grŵp.

> Bydd hyn yn agor pob math o lwybrau ar gyfer ei menter, ac rwy'n sicr na fyddai hynny wedi digwydd heb y cymorth yr ydym wedi ei roi iddi trwy Atebion Mentrus. **Cydgysylltydd**

> Byddwn yn argymell Atebion Mentrus yn gryf am iddynt fod yn wych. Buom wrthi'n aflwyddiannus am saith mlynedd heb wneud unrhyw gynnydd; ond roeddem wedi cyflawni ein nod yn gyflym iawn wrth weithio gydag Atebion Mentrus. Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn gefnogol iawn, ac mae ganddynt gysylltiadau rhagorol a llawer o allu ymarferol.
>
> **Grŵp a gefnogwyd**

## AMGYLCHEDDOL



Mae CYD Cymru yn gweithio gyda chymunedau a sefydliadau i ddatblygu atebion cynaliadwy a chadarn, ac i ddeall eu heffaith ar yr amgylchedd ac ar y newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â chymryd camau ymarferol a chreu buddion cadarnhaol.

Mae nifer o brosiectau Atebion Mentrus wedi cael buddion a chamau gweithredu amgylcheddol cadarnhaol yn rhan o'u menter gymunedol, ac maent hefyd wedi cael eu cyfeirio at ein rhaglen gweithredu dros yr hinsawdd Adfywio Cymru, a chymorth arall i ddatblygu'r agwedd hon.

# ADEILADU CYMUNEDAU CADARN A CHYNALIADWY




Mae Atebion Mentrus wedi galluogi grwpiau i gymryd camau ymarferol wrth gynllunio, datblygu a rheoli menter gymunedol gynaliadwy.

Mae yna dystiolaeth bod mwyafrif y grwpiau sydd wedi cael cymorth trwy'r rhaglen yn fwy hyderus, yn meddu ar well dealltwriaeth o fentrau cymunedol a'r sgiliau sy'n ofynnol i'w rhedeg, a'u bod wedi'u rhwydweithio'n well â mentrau cymunedol yng Nghymru o ganlyniad i'r cymorth a ddarparwyd.

## CYSYLLTU

Y ffordd orau o ddeall Atebion Mentrus yw ei fod yn gatalydd, sy'n gwneud i bethau ddigwydd yn gyflymach neu'n fwy effeithiol nag y byddent heb y cymorth hwnnw. Mae cymorth Atebion Mentrus yn golygu bod llawer o fentrau cymunedol wedi'u cysylltu'n well â'u cymheiriaid a'u cymunedau

Daeth chwe grŵp ar Ynys Môn a gafodd gymorth gan Atebion Mentrus ynghyd i sefydlu menter gymunedol newydd o'r enw Bro Môn.



"Byddwn yn argymell Atebion Mentrus oherwydd roedd y Mentor y cefais fy rhoi mewn cysylltiad ag ef yn hollol wych. Roedd ei wybodaeth am weithio yn y trydydd sector yn annhebyg i unrhyw un yr wyf yn ei adnabod. Mae ganddo gefndir mor wych, ac aeth ati i rannu'r wybodaeth honno â ni."

**Grŵp a gefnogwyd**

"Byddwn yn argymell Atebion Mentrus am fod [y staff] yn gwrando arnoch ac yn darparu'r cymorth y mae arnoch ei angen. Roedd y Mentor yn wybodus iawn am sefydlu elusen, a darparodd yr holl wybodaeth yr oedd arnaf ei hangen i wneud hynny. Mae'r sefydliad yn hynod o gefnogol ac yn drefnus iawn."

**Grŵp a gefnogwyd**

"Byddai wedi cymryd llawer mwy o amser i ni gael yr wybodaeth yr oedd arnom ei hangen. Gallem fod wedi mynd ar hyd y llwybr anghywir, ac yna byddem wedi gorfod ceisio cywiro pethau. Roedd Atebion Mentrus wedi ein harwain yn syth i lawr y llwybr iawn ac wedi ein helpu i wneud penderfyniadau gwybodus."

**Grŵp a gefnogwyd**